



# Diogelu Oedolion Archolledig

Pan mae honiad wedi ei wneud yn eich erbyn

Ar gyfer staff a gweithwyr gofal

## Diogelu Oedolion Archolledig

### Pan mae Honiad Wedi ei Wneud yn Eich Erbyn?

Mae pob Tîm Diogelu Oedolion Archolledig yn gweithio i sicrhau bod holl oedolion archolledig yn cael eu diogelu rhag gamdriniaeth ac esgeulustod a phan fydd cyfeiriad yn cael ei dderbyn, efallai bydd angen gweithredu er mwyn cadw unigolion yn ddiogel rhag niwed pellach neu beryg o niwed. Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i ymateb i holl bryderon y mae'n derbyn os gall oedolyn archolledig fod mewn perygl.

Gall honiad sydd wedi ei godi fod yn eich gallu fel gweithiwr/wraig taledig, efallai eich bod wedi gwneud niwed neu roi oedolyn archolledig mewn perygl. Gall hwn fod am nifer o resymau, gan gynnwys gweithredoedd esgeulustra, gweithredoedd bwriadol, neu gweithredoedd sydd ddim yn fwriadol.

### Pwy allai fod yn oedolyn archolledig?

Diffiniad Polisi Cymru o oedolyn archolledig yw:

*“Person 18 mlwydd oed a hŷn sydd angen, efallai, gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd afiechyd y meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch, ac sydd ddim yn gallu gofalu am eu hunain neu sydd ddim yn gallu amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu ecsploetiaeth ddifrifol.”*

Gall oedolion archolledig gynnwys pobl gydag anableddau dysgu, problemau iechyd y meddwl, pobl hŷn a phobl ag anabledd. Efallai bod eu sefyllfa yn cael ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol fel breuder corfforol, salwch difrifol, nam ar y synhwyrau, ymddygiad heriol, diffyg galluedd y meddwl, problemau cymdeithasol ac emosiynol, tlodi, digartrefedd neu gamddefnyddio sylweddau.

## Cyfrinachedd

Pan wneir honiad, bydd yna wybodaeth efallai y bydd rhaid i ni ei rannu ag eraill, fel yr heddlu neu bobl sy'n monitro ansawdd gwasanaethau cofrestredig. Rydym yn cymryd gofal i sicrhau bod y wybodaeth ond yn cael ei rannu â'r bobl sy'n cymryd rhan yn y broses.

## Beth sy'n digwydd pan nodir gofid?

Pan fydd honiad yn cael ei wneud, bydd penderfyniad yn cael ei wneud os bydd angen gweithred uniongyrchol i ddiogelu'r oedolyn archolledig. Bydd cymaint o wybodaeth a phosib yn cael ei gasglu a bydd angen rhannu'r wybodaeth hon ag asiantaethau eraill fel yr Heddlu neu sefydliadau sydd yn monitro safonau gwasanaethau cofrestredig. Bydd y wybodaeth hon ond yn cael ei rhannu gyda'r bobl sy'n ymwneud â'r broses Diogelu Oedolion Archolledig.

Bydd yr Uwch Swyddog Dynodedig yn cydlynu'r broses sydd wedi ei osod ym Mholisiau a Gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Archolledig Cymru a gall gynnwys cyfarfod strategaeth i bawb sy'n gysylltiedig â'r oedolyn archolledig i drafod yr honiad ac i benderfynu os oes angen archwiliadau neu weithrediadau. Ni fyddwch yn cael eich gwahodd i fynychu'ch cyfarfod hwn.

Efallai ysgrifennir cynllun diogelu oedolion i egluro i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig beth yw'r gofidion ac i osod camau er mwyn cadw'r oedolyn archolledig yn ddiogel rhag mwy o gamdriniaethau neu esgeulustod.

Os bydd angen archwiliad bydd y cyfarfod yn trafod y materion i'w harchwilio. Gall yr archwiliad cael ei gynnal gan yr Heddlu, gweithiwr/wraig iechyd neu weithiwr/wraig gofal cymdeithasol. Os penderfynir bod hyn yn mater troseddol, bydd archwiliad yr Heddlu yn cymryd blaenoriaeth a gall hwn greu oedi.

Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnwys yr oedolyn archolledig yn y broses ac i barchu eu penderfyniadau a'u dymuniadau os yn bosib. Os bydd yr oedolyn archolledig wedi derbyn asesiad sy'n nodi nad oes gallu iddynt wneud y fath hynny o benderfyniadau, bydd penderfyniadau sydd er eu lles gorau yn cael eu gwneud drostynt.

## Sut byddaf yn cymryd rhan?

Fel cyflogai o wasanaeth gofal efallai gofynnir i chi i weithio mewn lle gwahanol neu efallai gofynnir i chi i beidio â dod i'r gwaith wrth i'r broses Diogelu Oedolion Archolledig gael ei ddilyn ac unrhyw archwiliad gael ei gynnal. Mae hyn i amddiffyn yr oedolyn archolledig ond hefyd yn eich amddiffyn chi rhag cael eich rhoi mewn sefyllfa anodd wrth i gwestiynau manwl ynghylch yr honiad neu'r mater o ofid gael eu gofyn. Mae hyn hefyd yn sicrhau fod y gwasanaeth yn cyflawni ei ddyletswydd gofal i ddiogelu holl oedolion archolledig nes i'r sefyllfa gael ei ddatrys. Gelwir hyn yn waharddiad ac nid oes ragfarn.

Mewn rhai achlysuron efallai gofynnir i chi i weithio mewn lle gwahanol am weddill y lleoliad.

Bydd eich cyflogwr yn defnyddio polisiau cyflogi a fydd yn sicrhau fod gennych y cyfle i gael eich cefnogi, cael eich hysbysu ynghylch beth sy'n digwydd a bod gennych ddigon o amser i drefnu i rywun eich cefnogi pan gewch eich cyfweld neu pan rydych yn mynychu unrhyw gyfarfod.

Efallai gofynnir i chi i roi eich barn am y sefyllfa sy'n cael ei archwilio. Gallai hyn fod yn gyfweliad sydd wedi ei drefnu gan yr heddlu, neu gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi derbyn hyfforddiant i arwain archwiliadau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau Diogelu Oedolion Archolledig.

Gall gyflogeion gael cefnogaeth pellach gan eu is-adran personél neu adnoddau dynol, cynrychiolydd undeb llafur neu sefydliad proffesiynol, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu gyfreithiwr/wraig.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr archwiliad?

Unwaith bod yr ymchwiliad wedi gorffen, bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal fel y gall y bobl berthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses o ddiogelu'r oedolyn archolledig adolygu'r ymchwiliad a phenderfynu os profwyd neu os na brofwyd yr honiad. Efallai bydd cynllun diogelu oedolion pellach yn cael ei greu i sicrhau diogelwch a lles parhaol yr oedolyn archolledig.

Efallai bydd gweithredoedd pellach neu newidiadau i'r ffordd y darperir gofal ac efallai bydd gofal yn cael ei fonitro drwy'r cynllun diogelu oedolion. Gall y cynllun gynnwys hysbysu sefydliadau eraill fel y Swyddfa Gwarcheidwaeth Gyhoeddus/y Llys Gwarchod neu wasanaethau cyfreithiol eraill.

Fel gweithiwr/wraig cyflogedig, yn dibynnu ar ganlyniadau'r archwiliad, efallai bydd trefnau disgyblaethol yn dilyn. Os profir yr honiadau neu'r gofidion yn eich erbyn, gallech gael eich hatgyfeirio at Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a fydd yn asesu yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad ac mi fydd yn ystyried eich addasrwydd i barhau i weithio gydag oedolion archolledig.

Byddwch yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan eich is-adran AD/personél priodol yn y cyfnod hwn a byddwch yn cael eich hysbysu o ganlyniad y gynhadledd achos diogelwch oedolion.

## Manylion cyswllt

Os hoffech drafod cynnwys y daflen hon ymhellach, gallwch gysylltu â rheolwr/wraig o fewn sefydliad eich hun neu gallwch gysylltu â'r Tîm Diogelu Oedolion Archolledig ar:

### **Blaenau Gwent:**

Ffôn: 01495 315700

E-bost: [dutyteam@blaenau-gwent.gcsx.gov.uk](mailto:dutyteam@blaenau-gwent.gcsx.gov.uk)

Ffacs: 01495 353350

### **Caerffili:**

Ffôn: 0808 100 2500

E-bost: [diogeluoedolion@caerffili.gov.uk](mailto:diogeluoedolion@caerffili.gov.uk)

Ffacs: 01443 864664

### **Sir Fynwy:**

Ffôn: 01291 638928

E-bost: [monpovaduty@monmouthshire.gcsx.gov.uk](mailto:monpovaduty@monmouthshire.gcsx.gov.uk)

### **Casnewydd**

Ffôn: 01633 656656

E-bost: [pova.team@newport.gov.uk](mailto:pova.team@newport.gov.uk)

### **Torfaen:**

Ffôn: 01495 762200

E-bost: [socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk](mailto:socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk)

Ffacs: 01495 766686

Os oes argyfwng ac mae angen i chi gysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa ffoniwch ein **Tîm Dyletswydd Argyfwng** ar: **0800 328 4432**